Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Coed-Y-Gof
**Beechley Drive**
**Pentre-baen**
**Caerdydd**
**CF5 3SG**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gymraeg Coed-Y-Gof

Mae Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof yn ysgol benodedig Gymraeg sydd wedi'i lleoli yn ardal Pentre-baen, yng ngorllewin Dinas Caerdydd. Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae niferoedd yr ysgol wedi gostwng yn raddol. Ar hyn o bryd, mae 335 o ddisgyblion rhwng pedair ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol. Addysgir disgyblion y brif ffrwd mewn 12 dosbarth un oedran ac un dosbarth cymysg. Ychydig o ddisgyblion sy'n dod o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng addysgu drwy'r ysgol, gan ychwanegu'r Saesneg fel pwnc yng nghyfnod allweddol 2, gyda'r nod o gael y disgyblion yn ddwyieithog erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol.

O dan ofalaeth yr awdurdod, mae canolfan adnodd llawn amser ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol wedi ei sefydlu yn yr ysgol. Mae'n gwasanaethu holl ysgolion cynradd Cymraeg Caerdydd.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae tua 24% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn uwch na'r ganran genedlaethol, sef 19%. Mae'r ysgol wedi adnabod 25% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol sydd yn sylweddol uwch na'r ganran genedlaethol, sef 21%. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae ychydig iawn o ddisgyblion o dan ofalaeth yr awdurdod.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Tachwedd 2010. Dros y flwyddyn ddiwethaf, bu newid sylweddol yn arweinyddiaeth yr ysgol. Mae pennaeth gweithredol, arweinydd yr ysgol a'r dirprwy bennaeth yn eu swyddi ers Medi 2017.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae arweinwyr yr ysgol, mewn cyfnod byr, wedi llwyddo i greu ethos o gydweithio llwyddiannus.  Mae hyn wedi arwain at greu awyrgylch hapus a chynhaliol ar gyfer disgyblion.  Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarnhaol i ddatblygiad lles disgyblion yn effeithiol.  Mae hyn yn ganolog i holl waith yr ysgol.  Mae'r ddarpariaeth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gadarn ac yn cael effaith bositif ar eu hagweddau tuag at eu dysgu.  O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos agwedd bositif tuag at eu dysgu.  Maent yn gwrtais ac yn dangos parch tuag at eraill.

Ar y cyfan, mae athrawon yn cynllunio ystod eang o brofiadau dysgu sy'n cymell diddordeb a brwdfrydedd y disgyblion.  Fodd bynnag, nid yw egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi gwreiddio'n llwyr.

Mae codi safonau yn greiddiol i waith yr ysgol.  Yn gyffredinol, trwy ddefnyddio ystod o weithgareddau arfarnu addas, mae gan arweinwyr wybodaeth briodol am safonau a'r addysgu.  Fodd bynnag, nid yw arweinwyr wedi mynd i'r afael yn ddigon cyflym â'r anghysondebau yn yr addysgu nac wedi gweithredu'n ddigon buan i sicrhau bod y cyfnod sylfaen yn gadarn ar waith.

Mae arweinyddiaeth hir dymor a strwythur staffio'r ysgol yn parhau'n ansicr ac ansefydlog.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwella** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau strwythur arweinyddol sefydlog i'r ysgol

A2 Sicrhau gweithrediad y cyfnod sylfaen yn llawn

A3 Cynyddu lefel yr her yn yr addysgu

A4 Codi safonau darllen yn y cyfnod sylfaen ac ysgrifennu Cymraeg ar draws yr ysgol

A5 Miniogi arfarniadau monitro a sicrhau bod arweinwyr yn gweithredu'n fwy effeithiol ar y canfyddiadau

A6 Cryfhau rôl y llywodraethwyr er mwyn iddynt weithredu'n fwy strategol wrth fonitro'r gyllideb yn fwy bwriadus

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Digonol ac angen gwella**

Ar fynediad i'r dosbarth derbyn, mae medrau sylfaenol llawer y disgyblion yn is na'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Er hynny, mae llawer yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n dda ac yn cyfrannu'n frwdfrydig i drafodaethau dosbarth.

Er bod rhan fwyaf y disgyblion yn ymuno â'r ysgol heb y Gymraeg, maent yn caffael yr iaith yn fuan. Mae disgyblion y dosbarth derbyn yn datblygu ystod gynyddol o eirfa ac yn ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau a chwestiynau cyfarwydd. Yn ystod eu hamser yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu medrau llafar yn bwrpasol wrth gyfathrebu â'u cyfoedion ac oedolion. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn cynnal sgwrs ac yn mynegi eu syniadau'n glir wrth ymgymryd â gwahanol weithgareddau, er enghraifft wrth drafod eu gwaith am fôr ladron. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio ystod addas o eirfa'n briodol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Maent yn siarad yn hyderus yn y ddwy iaith gan ddefnyddio geirfa benodol o fewn cyd-destun y gwaith, er enghraifft wrth drafod ymchwiliad gwyddonol ar ynysyddion thermol.

Mae mwyafrif disgyblion y cyfnod sylfaen yn gwneud cynnydd addas yn eu medrau darllen. Maent yn defnyddio strategaethau priodol i ddehongli geiriau anghyfarwydd. Fodd bynnag, nid yw eu gallu i drafod cynnwys eu llyfrau wedi datblygu'n ddigon cadarn. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen yn y ddwy iaith yn llwyddiannus, ac yn dangos dealltwriaeth gadarn o'r testun. Mae llawer ohonynt yn rhoi sylw da i'r atalnodi ac yn amrywio goslef llais a chyflymder yn fedrus. Maent yn defnyddio'u medrau darllen yn effeithiol er mwyn cyfoethogi eu dysgu, er enghraifft i ganfod gwybodaeth am brisiau gwestai yn Affrica.

Ar draws y cyfnod sylfaen, mae mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n addas mewn ystod gyfyng o ffurfiau gwahanol. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, maent yn ysgrifennu dilyniant o frawddegau syml yn briodol, gan atalnodi eu gwaith yn addas. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu'n llwyddiannus at wahanol bwrpasau a chynulleidfaoedd yn y ddwy iaith, er enghraifft wrth ddwyn perswâd ar bobl i ymweld â chastell Caerdydd fel rhan o waith thema ar yr ardal leol. Erbyn diwedd Blwyddyn 6, mae'r mwyafrif yn atalnodi a pharagraffu darnau ysgrifenedig yn fedrus. Ar draws yr ysgol, mae gorddefnydd o daflenni parod yn cyfyngu ar allu disgyblion i ysgrifennu'n rhydd ac estynedig.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio a chymhwyso eu medrau rhifedd yn briodol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Yn y dosbarth derbyn, mae'r rhan fwyaf yn cyfateb rhifau â gwrthrych hyd at 10, yn ogystal ag adio dau rif. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn datrys problemau rhif syml yn addas ac yn haneru a dyblu rhifau. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn defnyddio ystod addas o strategaethau i ddatrys problemau yn gadarn. Maent yn dadansoddi data, datrys problemau ffracsiynau a chanrannau ac yn mesur perimedr ac arwynebedd yn llwyddiannus. At ei gilydd, mae disgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn fwriadus. Enghraifft dda o hyn yw'r disgyblion yn defnyddio'u medrau rhifedd i drosi unedau safonol ac ar gyfer rysáit 'pice ar y maen'.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n gadarn ar draws yr ysgol. Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio apiau yn briodol i gefnogi eu dealltwriaeth o lythrennedd a rhifedd. Mae rhan fwyaf y disgyblion ar frig y cyfnod yn rheoli teclyn electronig yn dda i ddarganfod trysor y môr ladron. Mae gan ran fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 fedrau TGCh sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Maent yn adfer ac achub eu gwaith yn annibynnol ac yn defnyddio TGCh yn hyderus ar draws y cwricwlwm. Enghraifft dda o hyn yw eu defnydd o daenlen i gofnodi a chyfrifo costau gwisg ysgol gan ddefnyddio fformiwlâu yn effeithiol.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da tuag at gyrraedd eu targedau. Mae bron pob disgybl yr adnodd dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cyson yn erbyn eu targedau llythrennedd a rhifedd. Maent yn hyderus wrth ddefnyddio TGCh, er enghraifft i wirio prisiau nwyddau mewn archfarchnad ar gyfer gwneud cacen sbwng. Fodd bynnag, nid yw medrau llafar Cymraeg llawer o'r disgyblion wedi datblygu'n llawn.

### Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar lle mae cydberthynas gefnogol a chwrtais rhwng oedolion a disgyblion yn amlwg. Mae bron pob disgybl yn gwrtais a meddylgar ac yn dangos parch a gofal tuag at eu cyfoedion ac ymwelwyr. Maent yn dangos balchder wrth siarad am eu hysgol a'r gymuned ehangach. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn pryderu.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn arddangos brwdfrydedd tuag at eu gwaith ac yn cadw ar dasg am gyfnodau hir. Mae llawer yn trin a thrafod eu gwaith yn hyderus ac yn cael cyfleoedd i leisio'u barn am yr hyn yr hoffent ei ddysgu o fewn gwaith y dosbarth. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos medrau cydweithio datblygiadol fesul pâr ac o fewn eu grwpiau. Maent yn cydweithio'n dda â'u cyfoedion, gan gynnig cymorth i'w gilydd pan fo angen. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'n ddysgwyr brwdfrydig, creadigol a hyderus. Caiff hyn ei atgyfnerthu'n effeithiol trwy sesiynau 'Dewch i Ddathlu', lle mae disgyblion yn rhannu eu gwaith gyda'u cyfoedion.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd yfed a bwyta'n iach ac o sut i gadw'n heini. Maent yn trin a thrafod bwydydd iach yn hyderus ac yn ymwybodol o bwysigrwydd diet cytbwys. Caiff hyn ei atgyfnerthu'n llwyddiannus trwy weithgareddau corfforol o fewn y cwricwlwm ac yn allgyrsiol, er enghraifft mewn gwersi hwylio, yoga a gymnasteg.

Mae'r disgyblion sy'n rhan o bwyllgorau amrywiol yr ysgol yn datblygu eu cyfrifoldebau'n dda. Er enghraifft, mae'r arweinwyr digidol yn arwain staff a disgyblion yn effeithiol yn eu hymgyrch i gadw'n ddiogel ar lein ac wrth hyfforddi cyfoedion a staff i ddefnyddio meddalwedd a chaledwedd newydd yr ysgol. O ganlyniad, mae gwybodaeth a dealltwriaeth e-ddiogelwch y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda.

Mae'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco yn frwdfrydig ac yn cyfrannu'n bwrpasol tuag at welliannau yn yr ysgol. Enghraifft dda o hyn yw eu cyfraniad tuag at greu system a gweithdrefnau rheoli ymddygiad ar gyfer yr ysgol gyfan. Mae'r posteri 'Pyramid Parch' a'r gweithdrefnau cadarn sydd ar waith yn cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad disgyblion. Ar y cyfan, mae ymddygiad rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol mewn gwersi a thu hwnt i'r ystafell ddosbarth yn dda.

Mae dealltwriaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion o werthoedd a chydraddoldeb yn datblygu'n dda, er enghraifft wrth drafod agweddau o wrth-fwlio. Mae gwybodaeth llawer o ddisgyblion am ddinasyddiaeth fyd-eang ac am ddiwylliannau eraill yn datblygu'n fwriadus drwy waith y cyngor eco a gwaith o fewn y dosbarth, er enghraifft am Fasnach Deg ac astudiaeth o wlad Mecsico.

Mae prydlondeb ychydig iawn o ddigsyblion yn bryder.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwella**

Mae perthynas weithio agos a chefnogol iawn yn bodoli rhwng oedolion. Mae athrawon yn modelu iaith lafar dda ac yn annog disgyblion i ddefnyddio'u Cymraeg yn gyson. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau llafar llawer o ddisgyblion ac yn eu datblygu i fod yn ddysgwyr dwyieithog hyderus.

Ar y cyfan, mae'r athrawon yn darparu tasgau a phrofiadau sy'n ennyn diddordeb llawer o ddisgyblion yn briodol. Mae'r tasgau yn bodloni anghenion y mwyafrif o ddisgyblion ac yn eu galluogi i wneud cynnydd addas. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o athrawon yn herio'r disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu. Yn y dosbarthiadau hyn, mae disgwyliadau athrawon yn isel. Mae llawer o athrawon yn rhannu cyfarwyddiadau yn glir ac yn holi'n briodol i ymestyn a datblygu dealltwriaeth disgyblion. Fodd bynnag, nid yw egwyddorion y cyfnod sylfaen yn gadarn ar waith. Mae tasgau yn aml yn cael eu harwain yn ormodol gan oedolion. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol a hyderus.

Mae cynorthwywyr yn cydweithio'n effeithiol â'r athrawon ac yn darparu arweiniad a chymorth defnyddiol i gefnogi grwpiau penodol o ddisgyblion. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at eu lles a'u cyflawniad o fewn gwersi. Mae llawer o athrawon yn darparu adborth gwerthfawr i ddisgyblion am yr hyn y maent yn ei wneud yn dda a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella. Fodd bynnag, nid yw'r arfer hon yn gyson ar draws yr ysgol a chyfyng yw'r cyfle i ddisgyblion wella'u gwaith.

Mae ansawdd yr addysgu yn ddigonol ac angen gwelliant.

Ers dechrau'r flwyddyn, mae'r ysgol wedi gweithio gydag ysgolion yr ardal i addasu ei dull o gynllunio er mwyn ymateb i gwricwlwm newydd i Gymru. Mae'r newid yn y cynllunio ar draws yr ysgol wedi arwain at gynyddu ehangder y profiadau i'r disgyblion a rhoi ystyriaeth dda i'w diddordebau. Mae'r dull cynllunio newydd wedi ehangu ar y cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau a chymryd perchnogaeth dros eu dysgu. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gyson eto ar draws yr ysgol. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi buddsoddi'n sylweddol mewn darpariaeth ar gyfer datblygu cymhwysedd digidol sydd yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i fesur effaith y newidiadau hyn ar ddeilliannau disgyblion. Mae athrawon yn defnyddio fframweithiau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn briodol yn eu cynllunio er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad yn y medrau.

Mae'r ysgol yn cyfoethogi profiadau dosbarth yn dda trwy amrywiol weithgareddau, ymweliadau a theithiau preswyl, er enghraifft drwy ymweliad Blwyddyn 6 i amgueddfeydd a safleoedd hanesyddol lleol fel rhan o'u 'Diwrnodau Darganfod'. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymateb yn bositif i'r Siarter Iaith, ac mae ymrwymiad amlwg gan y disgyblion i ddatblygu defnydd o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol. Darperir cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion ddysgu am ddiwylliant Cymru trwy eu themâu dosbarth a'u hastudiaeth o'r ardal leol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae gan yr ysgol system fanwl o fonitro ac olrhain cynnydd disgyblion. Mae'r athrawon yn casglu gwybodaeth asesu'n rheolaidd, ac mewn cyfarfodydd data tymhorol gyda'r arweinwyr maent yn dadansoddi'r wybodaeth yn fanwl. O ganlyniad, mae'r athrawon yn cynhyrchu rhaglenni ymyrraeth trwyadl sy'n sicrhau cynnydd cadarn yn natblygiad dysgu a lles disgyblion. Mae monitro darpariaeth y grwpiau ymyrraeth a thracio manwl rheolaidd yn sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol.

Mae'r ddarpariaeth gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae gan ddisgyblion gynlluniau addysgol unigol manwl sy'n darparu targedau penodol ac yn cael eu gwerthuso'n rheolaidd. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos â nifer o asiantaethau ac arbenigwyr sy'n darparu cymorth pwrpasol ar gyfer unigolion a grwpiau penodol o ddysgwyr. Mae pob disgybl sydd ag anghenion emosiynol a chymdeithasol yn cael eu cefnogi'n llwyddiannus mewn grwpiau maethu dyddiol. Mae'r gweithdrefnau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau cyrhaeddiad a lles disgyblion ac yn cyfrannu'n llwyddiannus at ethos gofalgar a chynhwysol yr ysgol.

Mae staff yr adnodd dysgu ychwanegol yn asesu cyrhaeddiad disgyblion yn fanwl ac yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol i adnabod cynnydd a'r camau nesaf.

O fewn cyfnod byr, mae'r uwch dîm rheoli dros-dro wedi sefydlu perthynas waith dda gyda rhieni. Mae cylchlythyron rheolaidd, safwe'r ysgol a chyfryngau cymdeithasol yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i rieni, gan gynnwys am waith eu plentyn. Mae hyn yn sicrhau ymglymiad y rhieni yn addysg eu plant.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau llwyddiannus ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r cwricwlwm, gwersi ymarfer corff a gweithgareddau allgyrsiol yn sicrhau bod rhan fwyaf y disgyblion yn deall manteision ymarfer y corff. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae pwyslais amlwg ac effeithiol ym mywyd yr ysgol ar ddatblygu gwerthoedd. Mae agweddau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn cael eu hyrwyddo'n llwyddiannus drwy'r cwricwlwm, gwasanaethau a'r celfyddydau creadigol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwella

Ers Medi, mae'r uwch dîm rheoli dros-dro, sy'n cynnwys pennaeth gweithredol, arweinydd yr ysgol a'r dirprwy bennaeth dros dro, wedi llwyddo i greu ethos o gydweithio llwyddiannus. Mae hyn wedi arwain at welliannau o ran datblygiad safonau a lles disgyblion. Mae ganddynt weledigaeth gadarn a chreadigol sy'n seiliedig ar greu ysgol gynhwysfawr a gofalgar lle mae lles disgyblion yn ganolog i holl waith yr ysgol. Mae disgyblion yn chwarae rôl weithredol yn y weledigaeth sy'n seiliedig ar ddatblygu parch at eraill. Mae'r uwch dîm rheoli yn cyfleu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus gyda'r staff, llywodraethwyr a'r rhieni. Mewn byr amser, a chyda chefnogaeth yr uwch dîm rheoli a'r consortiwm, mae'r pennaeth gweithredol wedi gosod nifer o strategaethau effeithiol ar waith sy'n cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth, a chodi safonau. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae arweinyddiaeth hir dymor a strwythur staffio'r ysgol yn parhau'n ansicr ac ansefydlog.

O dan arweiniad effeithiol y pennaeth gweithredol, mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth briodol o berfformiad yr ysgol.  Maent yn cwrdd yn rheolaidd, ac erbyn hyn, yn cyflawni eu dyletswyddau'n gydwybodol.  Mae ganddynt ddealltwriaeth addas o berfformiad yr ysgol a sut maen cymharu ag ysgolion tebyg.  Mae ganddynt gyfrifoldeb am agweddau penodol o flaenoriaethau cyfredol sy'n eu galluogi i gefnogi a herio gweithdrefnau'r ysgol yn fwy effeithiol.  Enghraifft o hyn yw'r modd maent yn herio'r ysgol ynghylch cryfhau ethos Cymreig o fewn yr ysgol a chodi safonau'r Gymraeg.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen weithredol sydd, ar y cyfan, yn rhoi darlun cywir o sefyllfa'r ysgol.  O ganlyniad i'r gweithdrefnau gwerthuso diweddar, mae gan arweinwyr wybodaeth addas am berfformiad yr ysgol.  Trwy fonitro gwaith disgyblion, ac arsylwi ar yr addysgu, bu i arweinwyr adnabod yr angen i addasu cynlluniau cwricwlaidd yr ysgol.  Yn ddiweddar, dan arweiniad brwdfrydig y dirprwy bennaeth dros-dro, mae athrawon yn dechrau cynllunio gweithgareddau sy'n ymateb i'r cwricwlwm newydd arfaethedig.  Mae staff yn cydweithio'n llwyddiannus ag ysgolion arloesol, sy'n ddatblygiad proffesiynol da i'r athrawon.  O ganlyniad i'r newidiadau hyn, mae ymrwymiad disgyblion i'w dysgu eu hunain yn datblygu'n effeithiol.  Er mai gweithdrefnau diweddar yw'r rhain, nid yw arweinwyr yn monitro effaith hyn yn llawn ar ddeilliannau disgyblion.  Nid ydynt wedi mynd i'r afael â'r anghysondebau o ran y ddarpariaeth yn y cyfnod sylfaen.  Nid yw'r ysgol ychwaith wedi mynd i'r afael yn llawn â lleiafrif o argymhellion yr arolygiad blaenorol.

Mae blaenoriaethau cynllun gwella'r ysgol yn deillio'n uniongyrchol o'r agweddau i'w datblygu a nodwyd yn yr adroddiad hunanarfarnu ac yn canolbwyntio'n benodol ar godi safonau.  Er bod arweinwyr yr ysgol yn cwblhau adolygiadau priodol o'r cynnydd mewn perthynas â blaenoriaethau'r ysgol, nid yw'r sylwadau'n ddigon arfarnol.  O ganlyniad, nid yw'r effaith na'r cynnydd i'w weld yn ddigon amlwg mewn ambell agwedd.

Un o gryfderau'r ysgol yw'r modd y mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd bwriadus i athrawon gydweithio â staff ysgolion cyfagos.  Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i staff yr adnodd dysgu ychwanegol ddiweddaru eu harbenigedd, sy'n cael effaith bositif ar y ddarpariaeth, lles a safonau'r disgyblion.  Mae'r ysgol yn ymateb yn addas i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol.  Enghraifft benodol yw'r modd mae'r ysgol wedi dechrau mynd i'r afael â'r fframwaith cymhwysedd digidol drwy hyfforddi staff.  Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar fedrau TGCh disgyblion a staff.

Dros gyfnod o amser, nid yw arweinwyr yr ysgol wedi rheoli'r gyllideb yn ddigon gofalus.  Bellach, mae cynlluniau clir gan yr ysgol ar gyfer lleihau'r diffyg dros y tair blynedd nesaf.  Mae'r ysgol yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn ddarbodus i sicrhau darpariaeth briodol ar gyfer disgyblion bregus ac i godi safonau lles disgyblion.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 17/07/2018